

Trawsgrifiad

Croeso i raglen TELT, Athrawon yn Dysgu i Addysgu Ieithoedd mewn Ysgolion Cynradd

Cynnwys: Rhaglen TELT: trosolwg, profiadau o addysgu ac astudio ar y rhaglen, effaith y rhaglen, y camau nesaf.

Beth yw TELT?

Caiff y rhaglen Athrawon yn Dysgu i Addysgu Ieithoedd ei chyflwyno gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru, drwy gydweithio â'r Brifysgol Agored yn yr Alban a Chanolfan Ieithoedd Genedlaethol yr Alban. Nod y rhaglen yw cynyddu a gwella'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd. Fel datblygiad proffesiynol parhaus, rhoddir cyfle i athrawon ddysgu iaith newydd ar yr un pryd â dysgu'r sgiliau i addysgu'r iaith honno yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhaglen yn agored i bob athro ysgol gynradd ar hyd a lled pedair gwlad y DU ac mae'n galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu ag athrawon a chydweithio â nhw ar draws y DU.

Mae ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn mynd i'r afael ag agweddau sylfaenol ar gyfathrebu ymhlith pobl. Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg, ac ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â llenyddiaeth. Ei nod yw annog dysgwyr i drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd ganddynt am y ffordd y mae ieithoedd yn gweithio mewn un iaith benodol i ddysgu a defnyddio ieithoedd eraill. Bwriad y dull amlieithog hwn yw hyrwyddo chwilfrydedd a brwdfrydedd disgyblion a rhoi sylfaen gadarn iddynt gymryd diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru a'r byd. Drwy ymwreiddio ieithoedd rhyngwladol yn yr ystafell ddosbarth a chymhwyso dull addysgu cyffwrdd, mae modiwlau TELT hefyd yn rhoi arweiniad ar sut i integreiddio ieithoedd mewn meysydd pwnc eraill hefyd.

Sut mae hyn yn gweithio?

Rhaglen dysgu o bell yw TELT. Mae dwy haen; dysgu iaith rhyngwladol ac addysgeg addysgu iaith. Bydd myfyrwyr yn astudio iaith o'u dewis, naill ai ar lefel dechreuwr neu ôl-ddechreuwr yn Ffrangeg, Almaeneg, Tsieinëeg Mandarin neu Sbaeneg. Wrth gwblhau modiwl TELT, bydd tystysgrif cwblhau yn cael ei dyfarnu i fyfyrwyr a byddant yn cael 15 credyd Y Brifysgol Agored yn awtomatig, y bydd modd eu defnyddio tuag at Radd Agored.

Beth yw'r lefel iaith gywir i mi?

Mae modd dysgu iaith o'r dechrau'n deg yn llwyddiannus, a hynny gan weithwyr proffesiynol prysur a gydag ieithoedd cymhleth fel Tsieinëeg. Mae rhaglen TELT wedi dangos i ni y gall addysgu iaith newydd ar lefel gynradd esgor ar ffyrdd newydd a chyffrous o weithio yn yr ystafell ddosbarth gan fod athrawon a disgyblion yn dysgu gyda'i gilydd. Rydym yn argymhell eich bod yn ystyried y lefel yr hoffech ei hastudio yn ofalus. Efallai na fydd profiad blaenorol a allai fod wedi dod o amlygiad i iaith mewn cyd-destunau gwahanol yn ddigonol i ddechrau ar lefel ôl-ddechreuwyr (A2) gan ei bod hi'n bwysig peidio â cholli allan

ar y strwythurau a'r eirfa allweddol sy'n cael eu haddysgu ar lefel A1. Mae'n werth crybwyll bod myfyrwyr TELT bob blwyddyn yn cyflawni sgorau uchel yn gyson yn asesiad y modiwl. Nid oes yr un athro sy'n dysgu wedi methu'r cwrs oherwydd cyrhaeddiad gwael, dim ond trwy beidio â chyflwyno'r aseiniadau.

Pa iaith y dylwn i ei dewis?

Gallai eich dewis iaith gael ei benderfynu gan eich ysgol, clwstwr neu awdurdod lleol.

Efallai y bydd gan rai ohonoch brofiad blaenorol o ddysgu iaith ac eisoes yn meddu ar gymhwyster cyfwerth â safon A1 a fydd yn eich galluogi i fynd yn syth i fodiwl iaith ôl-ddechreuwr. Fodd bynnag, os ydych chi eisoes yn teimlo'n hyderus a bod gennych safon A2 mewn un o'r ieithoedd TELT, mae'n bosibl y byddwch am ystyried dechrau iaith TELT newydd. Ystyriwch hyn fel cyfle i roi cynnig ar rywbeth gwahanol- ac ychwanegu iaith newydd at eich portffolio proffesiynol. Cysylltwch os bydd angen arweiniad arnoch yn hyn o beth. Gall un o'n tiwtoriaid helpu gydag asesu lefel. Rydym yn addysgu'r pedair iaith yn yr un ffordd, gan ddefnyddio'r un dull.

Mae gan y llinyn addysgeg ddull myfyriol cryf, sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i addysgu ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth cynradd a datblygu sgiliau iaith a llythrennedd eich disgyblion. Mae'n archwilio'r ffordd bresennol o feddwl am theori ac ymarfer addysgu ieithoedd cynradd, eich ymgysylltu â chysyniadau addysgegol allweddol i ymgorffori ieithoedd mewn arferion ystafell ddosbarth dyddiol, defnyddio amlgyfrwng i'ch cyflwyno i ddulliau addysgu y tu fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a'ch tywys i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch sgiliau newydd yn eich cyd-destun addysgu eich hun. Bydd rhan o'r gwaith cwrs yn digwydd ar wefan benodedig ac mewn tiwtorialau ar-lein, ond byddwch hefyd yn treulio amser yn rhoi cynnig ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a myfyrio ar hyn gyda chyd-fyfyrywyr.

Sut mae'r astudiaeth addysgeg yn gweithio.

Ceir cyfanswm o bum uned ac mae gan bob uned y rhannau canlynol: mewnbwn, tiwtorial, cymhwyso, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac ymgysylltiad pellach. Rhaid i chi gwblhau o leiaf bedair o'r pum tasg gymhwyso yn llwyddiannus er mwyn llwyddo yn y llinyn addysgeg.

Yr haen iaith

Cafodd ei chynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i siarad a deall iaith syml mewn cyd-destunau bob dydd. Mae'n archwilio bywyd a diwylliant mewn gwledydd a chymunedau lle caiff yr ieithoedd hyn eu siarad, sy'n eich cyflwyno i amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ymarferol megis teithio, siopa, gweithio a bwyta allan. Mae adnoddau astudio yn cynnwys deunyddiau argraffedig a gwefan benodedig gydag amrywiaeth o weithgareddau ar-lein sy'n cefnogi dysgu annibynnol. Byddwch yn cael cymorth tiwtor drwy gydol y broses gyfan. Gyda'i gilydd, nid yn unig byddant yn rhoi sgiliau iaith i chi ond syniad go iawn o ddiwylliannau hefyd.

Sut mae'r astudiaeth iaith yn gweithio.

Ar y wefan, byddwch yn canfod cynllunydd astudio, deunyddiau a gweithgareddau iaith i ymarfer y pedair sgil iaith: darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad. Byddwch yn astudio cyfanswm o bum uned gyda thri tiwtorial fesul uned. Nid yw'r sesiynau tiwtorial yn orfodol, ond caiff presenoldeb ei argymhell yn fawr. O ran aseiniadau, bydd yn rhaid i chi gyflwyno dau aseiniad sy'n cael eu marcio ar gyfrifiadur a dau

aseiniad sy'n cael eu marcio gan diwtor. Bydd yr aseiniadau sy'n cael eu marcio gan diwtor yn aseiniadau llafar ac ysgrifenedig.

Mae athrawon dan hyfforddiant TELT a'u disgyblion hefyd yn cael y cyfle i gydweithio â chymheiriaid mewn rhannau gwahanol o'r DU fel rhan o'u hastudiaeth TELT. Gallant ddewis cymryd rhan mewn rhaglen e-gefeillio sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i ddysgu iaith a gweithgareddau ymarferol i ddatblygu arferion addysgu. Caiff bathodynau digidol Y Brifysgol Agored eu dyfarnu i bob ysgol a disgybl fydd yn cymryd rhan yn y fenter hon.

Effaith astudiaeth TELT.

Mae ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen wedi rhoi gwybod am effaith gadarnhaol ar athrawon, disgyblion a'r gymuned ysgol ehangach. Drwy astudio'r modiwlau hyn, mae athrawon yn caffael y sgiliau addysgeg ymarferol o ran y ffordd orau o gyflwyno ac ymgorffori ieithoedd yn y cwricwlwm. Mae adborth yr athrawon wedi dangos bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymarfer yr ystafell ddosbarth ac yn adrodd ar lefel gynyddol o frwdfrydedd a diddordeb gan eu disgyblion o ran dysgu iaith, ac ymgysylltiad o'r newydd mewn gweithgareddau iaith yn yr ystafell ddosbarth. Yn aml iawn yn y gymuned ysgol, mae athrawon, rhieni a gofalwyr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol a thasgau ymgysylltu pellach sy'n cyfrannu at lwyddiant addysgu a dysgu iaith. Mae llawer o athrawon yn ystyried bod cymryd rhan yn TELT wedi gwella eu proffil proffesiynol a'u cofnod DPP ac mewn rhai achosion, mae wedi arwain at gyfleoedd gwaith a chyfleoedd am ddyrchafiad.

Faint o waith sy'n ofynnol?

Mae angen cyfanswm o naw mis i astudio TELT gyda rhyw bump awr o astudio ar-lein bob wythnos. Rhan o'r amser astudio yw cymhwyso'r dasg yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cyfranogwyr yn cydweithio ac yn rhannu syniadau ac ymarfer drwy fforymau cyrsiau a'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cymryd rhan mewn sesiynau tiwtorial ar-lein sydd wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy gydol y flwyddyn ysgol. Cânt eu cyflwyno ar-lein gyda'r posibilrwydd o ddwy ysgol ddydd wyneb yn wyneb. Mae lefel uchel o hyblygrwydd wedi'i chynnwys yn y rhaglen sy'n cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer dyddiadau cau i gyflwyno asesiadau. Mae'r holl diwtorialau ar-lein wedi'u cofnodi.

Y camau nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen TETL Cymru

[Athrawon yn dysgu sut i addysgu ieithoedd \(TELT\) | Y Brifysgol Agored yng Nghymru \(open.ac.uk\)](https://open.ac.uk)

Sut mae cofrestru.

Caiff rhaglen TELT yng Nghymru ei chefnogi a'i hariannu gan Dyfodol Byd-eang ac mae ar gael i bob athro cynradd mewn swydd yng Nghymru. Bydd pob Arweinydd Consortia Addysg ar gyfer ieithoedd yn rheoli'r broses gofrestru gyda'i briod ysgolion a bydd yn cyflwyno pob cais i'r Brifysgol Agored yng Nghymru ddechrau mis Medi. Ar ôl cwblhau, byddwch yn derbyn manylion mewngofnodi i'r Brifysgol Agored yn uniongyrchol, a manylion sefydlu ar-lein o ganol i ddiwedd mis Medi. Mae'r rhaglen yn dechrau ar ddechrau mis Hydref bob blwyddyn.

Diolch